Cais gan Ddeiliad Tŷ am Ganiatâd Cynllunio ar gyfer Gwaith ar/neu Ymestyn Annedd
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Dylai'r ffurflen Cais gan Ddeiliad Tŷ am Waith ar / neu Ymestyn Annedd gael ei defnyddio ar gyfer cynigion i newid neu ymestyn tŷ, gan gynnwys gwaith o fewn cwrtil (ffin/gardd) tŷ.

Os ydych yn gwybod bod angen caniatâd cynllunio arnoch, dylech ddefnyddio'r ffurflen Cais gan Ddeiliad Tŷ ar gyfer prosiectau megis:

- estyniadau
- heulfannau
- addasu croglofft
- ffenestri dormer
- addasiadau
- garejys, lleoedd parcio â tho i geir neu adeiladau allan
- pyllau nofio
- waliau
- ffensys
- mynediad i gerbydau gan gynnwys mannau croesi llwybr
- cynteddau
- dysglau lloeren

Dylech ddefnyddio'r ffurflen gais ar gyfer **Caniatâd Cynllunio Llawn** ac nid y ffurflen Cais gan Ddeiliad Tŷ os yw eich cais yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- unrhyw waith sy'n ymwneud â fflat
- ceisiadau i newid nifer yr anheddau (h.y. addasu fflat, codi tŷ ar wahân yn yr ardd)
- newid defnydd rhan o'r eiddo neu'r eiddo cyfan at ddefnydd nad yw'n breswyl (gan gynnwys busnes)
- unrhyw beth sydd y tu hwnt i ardd yr eiddo (gan gynnwys stablau mewn padog ar wahân)

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio neu pa ffurflen gais y dylech fod yn ei defnyddio, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Noder hefyd fod gan geisiadau gan ddeiliaid tai bellach hysbysiad penodol i'w ddefnyddio ar y cyd â'r tystysgrifau perchenogaeth a daliadau amaethyddol. Dylid ei ddefnyddio ar gyfer:

- ceisiadau gan ddeiliaid tai
- ceisiadau am ganiatâd gan ddeiliaid tai ac ardal gadwraeth
- ceisiadau am ganiatâd gan ddeiliaid tai ac adeiladau rhestredig